**COFNODION CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 11 MEDI 2023**

Yn bresennol: Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths (Cadeirydd)

Mark Thomas

Dafydd Dafis

Morwenna Pugh

Eifiona Davies

Rory Francis

Linda Ann Jones (ar Zoom)

Sioned Graham-Cameron, Clerc y Cyngor Tref

**1. Ymddiheuriadau**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

Cyn cychwyn y cyfarfod ffurfiol, cynhaliwyd cyfweliadau dau aelod o'r cyhoedd a oedd yn dymuno bod yn Gynghorwyr, Gareth Glyn Davies a Troy MacLean. Ar ôl y cyfweliadau ac wedi i'r ddau ymgeisydd adael y Siambr, cynigiodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh bod y ddau yn cael eu cyfethol i'r Cyngor Tref a chytunodd pawb.

**2. Datganiadau o Fuddiant**

Dywedodd Y Cynghorydd Linda Ann Jones ei bod yn Gyfawryddwr Cwmni Bro, gan gyfeirio at Rybudd o Gynnig Y Cynghorydd Rory Francis, a nododd Y Cynghorydd Eifiona Davies bod ganddi ddiddordeb personol fel cymydog yn eitem 7 Tir Carregfilltir, ond nad eodd diddordeb ariannol.

**3.** Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. **Dalier Sylw: trafodaeth yn unig; ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei ddodi ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.**
Nid oedd unrhyw beth.

**4. Diweddariad gan yr Heddlu**

Nid oedd unrhyw aelod o'r Heddlu yn bresennol yn y cyfarfod.

**5. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

**6. Derbyn a chadarnhau Cofnodion**

i. Cofnodion Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2023.
Nododd y Cynghorydd Mark Thomas bod angen diwygio'r cofnodion i gynnwys cyfeiriad at hysbysu Pennaeth Ysgol Maenofferen a'r Heddlu o'r angen i gadw ar reolau GDPR mewn perthynas â defnyddio'r system TCC yn y dref. Yn amodol ar y cywiriad, cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Morwenna Pugh bod y cofnodion y cael eu derbyn a chytunodd pawb.

DRAFT

ii. Cofnodion Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2023.
iii. Cofnodion Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 4 Awst 2023.
Mewn perthynas â chofnodion y cyfarfodydd hyn, cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Dafydd Dafis bod cyfarfod caeedig yn cael ei gynnal cyn y Pwyllgor Mwynderau ar 18 Medi 2023 i'w hystyried a gohirio penderfyniad arnynt tan hynny a chytunodd pawb.

iv. Cofnodion Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 7 Awst 2023.
Nododd y Cynghorydd Mark Thomas bod angen cywirio'r cofnodion canlynol - eitem 7, Swyddfa'r Post yn Londis, i gynnwys cyfeiriad at anfon llythyr at PO Counters hefyd; eitem 9, Dyfynbris N W Fencing, bod y Cyngor Tref yn cadw'r hen byst; eitem 11, Llythyr Ymgynghorol Cyn Gwneud Cais Rhwydwaith Gwledig a Rennir – roedd y Cynghorydd Mark Thomas wedi dweud bod y Cyngor Tref wedi anwybyddu tystiolaeth a gyflwynwyd ganddo ef yn y gorffennol ar effeithiau EMF, a'i fod wedi dweud nad oedd angen gwneud cais am 5G unwaith yr oedd caniatâd 4G wedi ei roddi. Yn amodol ar y newidiadau uchod, cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Rory Francis bod y cofnodion yn cael eu derbyn a chytunodd pawb.

**7. Tir Carregfilltir**

Adroddodd y Cynghorydd Eifiona Davies bod y Cyngor Sir bellach wedi cael caniatâd gan y Cynulliad i gofrestru'r tir yn eu henw hwy ac y gallai gymryd hyd at flwyddyn i hynny ddigwydd. Roedd angen symud eitemau a adawyd ar y tir ac roedd mewn cysylltiad gyda'r Cyngor Sir mewn perthynas â hynny. Holodd y Cynghorydd Mark Thomas am gael y trigolion lleol a oedd â phryderon i gyfarfod y Cyngor Tref.
Cynigiodd y Cynghorydd Linda Ann Jones ac eiliodd y Cynghorydd Morwenna Pugh bod y Cyngor Tref yn gofyn i'r Cyngor Sir flocio'r fynedfa a chytunodd pawb.

**8. Penwythnos Hwyl yn y Parc**

Cafwyd adroddiad ar Hwyl yn y Parc a dywedodd y Cynghorydd Morwenna Pugh bod y digwyddiad wedi bod yn llwyddiant mawr, gyda llawer o ganmol, ac ategodd y Cynghorydd Dafydd Dafis hynny. Cynigiodd bod digwyddiad felly yn cael ei gynnal eto y flwyddyn nesaf ac eiliodd y Cynghorydd Mark Thomas. Nododd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths y dylid hefyd ystyried symud y digwyddiad i gynnwys Llan a Thanygrisiau hefyd a chytunodd y Cynghorydd Linda Ann Jones gyda hynny. Cytunwyd cynnal cyfarfod i drafod hynny. Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas bod peth pryderon wedi bod gyda cheir yn gyrru drwy'r Parc ar y penwythnos a bod angen sicrhau nad oedd hynny'n digwydd eto. Soniodd hefyd am holi ynglŷn â grantiau i brynu marquees at y dyfodol.

**9. Iechyd**

Cafwydd adroddiad llafar ar ddiffibrilwyr yn yr ardal a chafwyd trafodaeth ar yr angen am gael rhai ychwanegol rhwng y pwyntiau presennol, gydag efallai grŵp bychan yn y Manod yn cael ei sefydlu i ofalu amdanynt. Derbyniwyd yr adroddiad.

**10. Taliadau a Derbyniadau**

Derbyniwyd yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Dafis ei fod eisiau manylion pellach ynglŷn â chyfradd cyfraniadau pensiwn y Clerc.

Gadawodd y Cynghorydd Linda Ann Jones y cyfarfod am 7.52pm.

**11. Ceisiadau Cynllunio**

**1.**
**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and Country Planning Act 1990**
Rhif Cais / Application No.: C23/0663/03/DT
Lleoliad / Location: Fron Heulog Ffordd Glanypwll, Glan Y Pwll, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3NP
Bwriad / Proposal: Estyniad arfaethedig ac altrad
Proposed extension and alterations
**Rhif y Cais:**
C23/0663/03/DT
**Math o Gais:**
Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:**
Estyniad arfaethedig ac altrad Proposed extension and alterations

Dywedodd y Cynghorydd Rory Francis nad oedd unrhyw un wedi mynegi pryderon iddo ef. Cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd y Cynghorydd Rory Francis nad yw'r Cyngor Tref yn gwneud unrhyw wrthwynebiad a chytunodd pawb.

**2a a 2b**
**Tŷ'r Wern (cyn Eglwys St. Michael's), Llan Ffestiniog. LL41 4LS - Trosi cyn eglwys i adeilad cymunedol gan gynnwys newidiadau allanol ynghyd ag adeiladu estyniad**

Cafwyd trafodaeth helaeth ar y cais. Dywedodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths fod rhai trigolion lleol wedi mynegi pryderon iddo ef y byddai'r datblygiad efallai yn cael effaith andwyol ar gyfleusterau presennol y pentref, gan gynnwys y Ndeuadd a Gwesty'r Pengwern. Mynegodd y Cynghorydd Morwenna Pugh bryderon o'r fath. Byddai cystadlu gyda'r adnoddau a oedd yn y pentref yn barod. Dywedodd y Cynghorydd Rory Francis bod digwyddiad ymgynghorol wedi ei gynnal yn y Pengwern y llynedd a'i fod wedi cyfarfod yr ymgeiswyr. Dywedodd bod peryg y byddai'r ymgeiswyr yn cerdded i ffwrdd os gwrthodir y cais a'r eglwys yn syrthio. Nododd hefyd bod y Cynghorydd Linda Ann Jones wedi ysgrifennu llythyr o gefnogaeth fel Cynghorydd Sir y pentref. Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas mai cyfrifoldeb y perchnogion oedd sicrhau gofal yr adeilad, a dywedodd y Cynghorydd Dafydd Dafis na fyddai'r adeilad yn cael ei adael gan y byddai CADW yn sicrhau hynny. Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Dafis ei fod yn gweld y cynllun yn gwella'r ardal. Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas bod angen gwrando ar lais y trigolion lleol. Ar ôl trafodaeth hir, cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref yn cefnogi teimladau'r trigolion lleol sy'n gwrthwynebu a gwrthwynebu'r cynnig, ac eiliodd y Cynghorydd Morwenna Pugh. Gofynnodd y Cynghorydd Mark Thomas am gael cofnodi'r bleidlais. Pleidleisiodd y Cynghorydd Rory Francis yn erbyn y cynnig. Pleidleisiodd y Cynghorydd Eifiona Davies a Marc Lloyd Griffiths o blaid y cynnig. Ymataliodd y Cynghorydd dafydd Dafis ac felly cytunwyd drwy fwyafrif.

**3. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and Country Planning Act 1990**
Rhif Cais / Application No.: C23/0532/03/LL
Lleoliad / Location: Fferm Neuadd Ddu, Manod, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4AL
Bwriad / Proposal: Stablau pren / Timber stable

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

DRAFT

**13. Diweddariad ar y Berllan, Pant-yr-Ynn**

Gofynnodd y Cynghorydd Mark Thomas a fyddai modd cael arian ar gyfer gwaith yn y Berllan ymlaen llaw, wrth aros i werthiant tir Baltic fynd trwodd. Roedd angen gwneud y gwaith plannu nawr, ar yr adeg iawn o'r flwyddyn. Cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd y Cynghorydd Eifiona Davies.

**14. System TCC a Threfniadau Gweithio ar Eich pen Eich Hun**

Adroddodd y Clerc nad oedd wedi cael ateb gan yr Heddlu hyd yma, a chytunwyd ei bod yn anfon llythyr eto, at uwch swyddog yr Heddlu i holi a fyddent yn hoffi mabwysiadu'r system.
O ran cael camera i warchod swyddfa'r Clerc, cynigiodd y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd y Cynghorydd Dafydd Dafis bod y Clerc yn gofyn i Kevin Jones fynd ati i osod camera am bris o oddeutu £300 a chytunodd pawb. Soniodd y Cynghorydd Mark Thomas y dylid rhoi'r camera yn y swyddfa; nododd y Clerc y gallai hynny achosi trafferthion pe byddai'n trafod materion sensitif ar y ffôn.

**15. Cais gan y Clwb Bowls**

Adroddodd y Clerc bod ysgrifennydd y Clwb Bowls wedi cysylltu i ddweud y byddai'r swm yn nes at £500 na'r £300 a oedd ar yr agenda, a dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas efallai y byddai angen iddo ddatgan buddiant os oedd y swm dros £500.
Cynigiodd y Cynghorydd Morwenna Pugh ac eiliodd y Cynghorydd Eifiona Davies bod y Cyngor Tref yn rhoi'r cymorth arianno, a chytunodd pawb.

**16. Llythyr o ddiolch gan Dave Creamer**

Cyflwynwyd llythyr o ddiolch gan Dave Creamer am ganiatáu hedfan baner ar ddiwrnod coffa'r Llynges Fasnachol ar 3 Medi 2023.

Mynegodd y Cadeirydd bryder ynglŷn â'r ffaith bod baner yn cynnwys Jac yr Undeb wedi ei hedfan ar bolyn y Cyngor Tref yng nghanol y dref dros benwythnos yn ddiweddar. Dywedodd Y Cynghorydd Mark Thomas nad oedd yn hapus bod baner Owain Glyndwr a'r Ddraig ar y gwaelod, ac nid oedd Y Cynghorydd Dafydd Dafis yn hapus chwaith. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh, pe ceid cais o'r fath yn y dyfodol, y dylid cyfeirio'r ymgeisydd at y polyn sy'n hedfan y tu allan i'r Ganolfan Goffa, lle mae cofeb ryfel eisoes yn bodoli, a chytunodd pawb.

**17. Cais gan Joseff Edwards**

Roedd cais wedi ei dderbyn i CIC Blaenau ddefnyddio'r Parc ar gyfer noson o hwyl i bobl ifanc unwaith eto, ar 21ain Medi 2023. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis bod y Cyngor Tref yn rhoi caniatad a chytunodd pawb.

**18. Neuadd Llan Ffestiniog**

Dywedodd y Clerc iddi fynychu cyfarfod o Bwyllgor y Neuadd gan adrodd nad oedd unrhyyw ddatblygiad wedi bod ynglŷn â sefyllfa prynu'r Neuadd gan y Cyngor Sir, a bod yr ohebiaeth ddiwethaf yn nodi mai'r Comisiwn Elusen a oedd wedi gwrthod hyn. Derbyniwyd yr adroddiad.

DRAFT

**19. Rhybudd o Gynnig**

Ystyried Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Rory Francis, fel a ganlyn:

*Mae’r Cyngor yn nodi y gallai’r lein rheilffordd rhwng Blaenau Ffestiniog a Thrawsfynydd fod yn adnodd gwerthfawr i’r gymuned, fel llwybr seiclo neu hyd yn oed fel rheilffordd, ond ei fod o wedi cael ei esgeuluso gan ei berchennog Network Rail, gan achosi problemau i trigolion lleol.*

*Mae’r Cyngor yn cefnogi ymdrechion gan yr AS Liz Saville Roberts ac eraill i berswadio Network Rail a’r Awdurdod Datgomisiynnu Niwclear i ddatgan a ydyn nhw’n bwriadu ailagor neu ddefnyddio’r lein yn y dyfodol, neu beidio, fel y gellir defnyddio’r lein at ddibenion eraill os nad yw’n mynd i gael ei ddefnyddio fel rheilffordd ar gyfer cyn-atomfa Trawsfynydd.*

*Mae’r Cyngor yn cefnogi ymdrechion gan Cwmni Bro ac eraill i drefnu prydles tacluso a dyddiau tacluso rheolaidd ar y rheilffordd, a hynny er mwyn gwella golwg y dref a dwyn perswâd ar Network Rail i ysgwyddo eu cyfrifoldebau o ran cadw’r lein y daclus.*

Cafwyd trafodaeth helaeth ar y cynnig. Gofynnodd Y Cynghorydd Mark Thomas os oedd y Rheol 6 mis wedi newid o ran ail-drafod mater. Nodwyd nad oedd y mater wedi ei drafod yn ffurfiol gan nad oedd eilydd i’r Cynnig pan ddaeth gerbron y Cyngor Tref o’r blaen. Cynigiodd ofyn i’r Clerc holi Un Llais i ganfod beth oedd y sefyllfa ac eiliodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis.

Dywedodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis bod Network Rail am ddechrau ar y gwaith clirio ym mis Hydref.

*Gan ei bod yn 9pm, roedd angen penderfyniad ffurfiol i roi’r Rheolau Sefydlog ar un ochr er mwyn parhau heibio 2 awr. Cynigiodd Y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh a chytunodd pawb.*

Holodd Y Cynghorydd Mark Thomas pwy oedd yr ‘eraill’ yn y cymal “Cwmni Bro ac eraill”? Atebodd Y Cynghorydd Ffrancis mai pwy bynnag a oedd yn barod i helpu oedd yr “eraill”. Dywedodd y byddai Cwmni Bro yn gobeithio cael grantiau i greu llwybr seiclo.

Dywedodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod cyfarfod wedi bod yn swyddfa Cwmni Bro a’i fod ef a’r Cynghorydd Francis yno. Cyfrifoldeb Network Rail yw glanhau.

Dywedodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths nad oedd yn gweld Network Rail yn rhoi prydles gan mai ased iddyn nhw ydoedd.

Dywedodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh os oedd NR yn mynd i lanhau, gadael iddyn nhw wneud. Os na, mynd yn ôl at hyn.

Dywedodd Y Cynghorydd Rory Francis y gallai’r gymuned elwa o lwybr beicio, gyda phlant Llan yn seiclo i’r Ysgol.

Dywedodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis bod Cwmni Bro yn mynd â phopeth allan o’r dref. Dywedodd Y Cynghorydd Rory Francis bod CB eisiau helpu’r gymuned.

Dywedodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref wedi gwneud rhywbeth wrth ofyn i NR lanhau a bod NR am wneud hynny.

Dywedodd Y Cynghorydd Mark Tomas bod y Cyngor Tref a’r cyhoedd angen gwybod beth oedd yn digwydd efo’r lein a chynnig bod y Cyngor Tref yn eu holi. Eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis a chytunodd pawb.

DRAFT

## 20. Holiadur Cyngor Gwynedd

Roedd y ddolen i'r holiadur wedi ei rhoi i'r cynghorwyr a chytunwyd y byddai pawb yn ymateb yn bersonol.

## 21. Materion er gwybodaeth

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40pm

DRAFFT